

❖ **BETH YW YSTYR AC ARWYDDOCÂD Y NADOLIG?**

Sawl tro, tybed, y clywsom ddweud mai ‘ar gyfer plant y mae’r Nadolig’, gyda’r awgrym nad yw’n berthnasol i rai mewn oed? Ond gwir ystyr, a sialens, ysbrydol y Nadolig yw cael pobl sy’n ddigon aeddfed i fod fel plant bach a rhyfeddu at ddirgelwch yr Ymgawdoliad. Ni fyddai’r Nadolig nemor chwedl brydferth, swynol, pe bai yn ddim byd mwy na dathlu geni baban. Y ffaith sylfaenol yw nad dathlu genedigaeth gyffredin a wnawn. Nid baban diniwed mo’r Iesu a anwyd ym Methlehem. Fe’i ganed, yn un peth, i fod yn Waredwr byd, a pheth arall i sefydlu iddo’i hun gymuned o bobl wedi eu trawsnewid ar ei ddull a’i ddelw ei hun, a honno’n gymuned â’i huchegais ar sefydlu teyrnas Dduw yn y byd, ac â’i bryd nid ar lwyddiant a dedwyddwch tymhorol ond ar wneud ewylllys ei Harglwydd. Fe’i nodweddir â goleuni’r Nadolig yn ei llygaid ac â chariad Baban Bethlehem yn ei chalon.

**Anrheg Duw i bob un ohonom yw’r Nadolig**, sef y newyddion da o lawenydd mawr i’w rannu ymhlith yr holl bobl. Calon dathlu’r Nadolig yw ein hymateb i ddau ddimensiwn cân yr angylion – gogoniant yn codi o’r ddaear i Dduw, a thangnefedd enaid i bawb ar y ddaear sy’n gyfranogion o haelioni di-ben-draw Duw ei hun.

Y mae’r Nadolig yn esgor ar fyd newydd. Penllanw gobaith a disgwyl dwys yw Gŵyl y Geni: yn y dechrau dyhead cenedl gyfan am ddyfodiad Meseia Duw, ac yna, ers hynny, gobaith pob credadun am weld gogoniant yr Arglwydd yn llewyrchu ymhlith dynion. Gyda gwawr goleuni mawr y Nadolig daw byd cwbl newydd. Nid byd yn cael ei greu ar sylfeini byd a fu ac sydd mewn bodolaeth ond byd yn cael ei drawsnewid ac yn wahanol i bob dim a fu o’r blaen. Dyma’r byd y deisyfwn amdano wrth weddio, ‘deled dy deyrnas; gwneled dy ewylllys, ar y ddaear fel yn y nef.’ Her y Nadolig yw inni ddod yn rhan o’r deyrnas honno a derbyn iau sy’n esmwyth a baich sy’n ysgafn. Os anwybyddwn yr her hon, rhodio a wnawn mewn tywyllwch.

**Anrheg Duw i ni yw ef ei hun.** Gŵyl rhyfeddol gariad Duw yw’r Nadolig. Maint ei gariad yw iddo ymostwng i gymryd ein natur ni a’n gwneud yn gyfrannog o’i anian ddwyfol ef. Felly fe’n gwahoddir ninnau yn ein tro i agor ein calonnau iddo ef fel bo ei gariad yn ein llenwi. Trwy feddiannu’r cariad hwnnw a’i rannu ag eraill y deawn i wir werthfawrogiad o gyfoeth anhraethadwy rhyfeddod y Nadolig. Gofynnir i ni ymdreiddio i Ysbryd yr Arglwydd er mwyn ein llunio ar ei ddelw ef ei hun. Rhaid i ni gael ein geni oddi uchod, ein geni o Dduw, a dod yn blant i Dduw. Dim ond pan fydd Crist wedi’i ffurfio ynom ni y cyflawnir rhyfeddod y Nadolig. Ac i’r cyflawniad hwnnw, neu’r rhyfeddod hwnnw, y mae’r Nadolig yn ein gwahodd.

**Harding Rees**